**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 7 Rhagfyr 2020 am 2.30 pm**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Econom Abertawe |
| Medwin Hughes | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Emma Woollett | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Huw Evans | Pennaeth Gwasanathau Democratiadd (Cyngor Abertawe) |
| Gareth Jones | Seilwaith Digidol (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lle (Cyngor Abertawe) |
| Nicola Pearce | Cyfarwyddwr Amgylchedd (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Rob Jones (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Steve Wilks (Prif Ysgol Abertawe)

Richard Brown (Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Sir Benfro)), Phil Roberts (Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe)) a/ac Wendy Walters (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr))

**14 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**15 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

**16 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

**1) Karen Jones – Prif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Llongyfarchodd Cadeirydd y Pwyllgor Karen Jones ar ei phenodiad fel Prif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'i chroesawu i'r cyfarfod.

**17 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**18 Achos Busnes Seilwaith Digidol - gydag Adborth y Bwrdd Strategaeth Economaidd.**

Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Isadeiledd Digidol (Gareth Jones) adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o adborth gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd ar y Rhaglen Isadeiledd Digidol ac i gymeradwyo cyflwyno'r achos busnes enghreifftiol pum achos yn ffurfiol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio awdurdod i roi pwerau dirprwyedig i Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i'r achos busnes yn ôl yr angen i gael y gymeradwyaeth honno.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cytunir ar gyflwyno achos busnes enghreifftiol pum achos yr Isadeiledd Digidol yn ffurfiol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

2) Rhoddir Awdurdod Dirprwyedig i Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen wneud unrhyw fân ddiwygiadau i'r achos busnes yn ôl yr angen i gael y gymeradwyaeth honno.

**19 Diweddariad Misol ar Brosiectau / Rhaglenni.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y prosiectau sy'n rhan o Raglen y Fargen Ddinesig:

**Isadeiledd digidol**

i) Achos Busnes ar agenda'r Cyd-bwyllgor.
ii) Paratoi ar gyfer recriwtio adnoddau ar y gweill.
iii) Risg ynghylch penderfyniadau polisi gan Lywodraeth Cymru - Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA).
iv) Risg o ran diffyg cyflenwyr telegyfathrebiadau sydd â'r gallu angenrheidiol i'w defnyddio.

**Sgiliau a Thalent**

i) Achos busnes yn cael ei ddatblygu.
ii) Bwriedir cynnal gweithdy gydag Arweinwyr y Prosiect i adolygu'r Cynllun Busnes a chryfhau'r Achos Economaidd.
iii) Cyflwyniad Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor i'w ystyried yn y Flwyddyn Newydd.
iv) Risg ynghylch yr oedi cyn cyflwyno'r rhaglen Sgiliau a Thalent sy'n effeithio ar ddarparu'r sgiliau sy'n ofynnol drwy brosiectau cymeradwy.

**Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer**

i) Cyflwyno Achos Busnes Amlinellol (ABA) wedi'i ddiweddaru i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (SRhP) cyn y Nadolig ac yna i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo.
ii) Adolygiad Porth wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2020, achos economaidd wedi'i ddiwygio.
iii) Datblygiad braenaru yng Nghastell-nedd wedi'i gwblhau.
iv) Cytundebau ariannu trydydd parti i'w datblygu/cytuno ar gyfer dwy gronfa Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
v) Cynllunio gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r brand.
vi) Risg o fethu â phenodi tîm prosiect nes cymeradwyo'r Achos Busnes.
vii) Recriwtio Rheolwr Prosiect (RhP).

**Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau**

i) Mae gwaith yn datblygu ar bont eiconig sy'n cysylltu safle'r arena â chanol dinas Abertawe i'w roi ar waith yn gynnar yn 2021.
ii) Cynnal trafodaethau ar ardal fasnachol ategol yn yr Arena.
iii) Tendr adeiladu ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin i'w dadansoddi.
iv) Penderfyniad y Cabinet ar 71/72 Ffordd y Brenin a gynlluniwyd ar gyfer Ch4 2020 bellach wedi'i wthio'n ôl i Ch1 2021.
v) Trafodaethau cyn ymgeisio ar gynllunio ar gyfer Pentref Blychau i'w cynnal. Mae Pentref Blychau wedi'i ailfrandio i'r Matrics Arloesedd.
vi) Risg o ran effaith COVID-19 ar adeiladu, gan gynnwys arafu rhaglenni ac effaith ar gostau.

**Pentre Awel**

i) Mae Achos Busnes wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
ii) Ymgysylltwyd â Llywodraeth Cymru. Angen sesiwn bellach gyda chynrychiolwyr y Fargen Ddinesig a'r cytundeb twf a benodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU.
iii) Risg ynghylch y posibilrwydd o golli cyfranogiad partneriaid academaidd ac iechyd oherwydd oedi.

**Prosiect Morol Doc Penfro**

i) Ymgysylltu'n gadarnhaol â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (SCEC).
ii) Mae ceisiadau cynllunio Cam 2 Isadeiledd Doc Penfro (PDI) ac Ardal Prawf Ynni Morol (META) ar fin digwydd.
iii) Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cynnig cefnogi Cyngor Sir Penfro/Prosiect Morol Doc Penfro wrth sefydlu trefniadau llywodraethu prosiect ffurfiol.
iv) Risg o gwmpas y gallu i barhau i gyflawni ymrwymiadau wrth i'r cytundebau ariannu prosiectau gael eu cwblhau.

**Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel**

i) Gwaith adeiladu Cam 5 Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe – Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) wedi'i ddechrau
ii) Diwygiadau i Achosion Busnes ar y gweill, yn enwedig ynghylch yr achos economaidd a byddant yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio cyn y Nadolig.
iii) Cynllun gweithredu 'Adolygiad Cyfaill Beirniadol' yn y cam cyflwyno.
iv) Synwyryddion monitro ansawdd aer a brynwyd mewn perygl cyn cymeradwyo'r Achos Busnes.

**Campysau**

i) Cynlluniau llawr gosod parthau ac amlinellol wedi'u cwblhau ar gyfer Cam 1 yn ysbytai Singleton a Threforys.
ii) Datblygu darpariaeth sgiliau newydd ar y gweill.
iii) Cynllunio i gwblhau astudiaethau dichonoldeb gyda phenseiri ac ymgynghorwyr cost.
iv) Trefniadau masnachol rhwng Dinas a Sir Abertawe a'r Bwrdd Iechyd i'w cwblhau.
v) Risg ynghylch effaith dirywiad economaidd COVID-19 ar sicrhau cyd-fuddsoddiad gan y sector preifat.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dylid nodi diweddariadau'r Rhaglen/Prosiect.

## 20 Monitro ariannol Ch2.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Chris Moore) adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am sefyllfa alldro ragweledig diwedd y flwyddyn mewn perthynas â swyddogaethau gweinyddol Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, y Corff Atebol, y Cyd-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Craffu.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Derbyn ac adolygu adroddiad Monitro Cyllideb Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

## 21 Prosbectws Cynyddu Rhanbarthol (Llafar).

Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE) adroddiad llafar yn gofyn am ganiatâd i greu Prosbectws Lefelu Rhanbarthol neu Gynllun Uchelgais.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, yn creu Prosbectws Lefelu Rhanbarthol/Cynllun Uchelgais.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**Cadeirydd**